# Cyngor Partneriaeth Cymru – 10 Chwefror 2022

## Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

**Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau a'r mynychwyr eraill i'r cyfarfod, a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu a gofynnwyd a oedd unrhyw sylwadau neu welliannau. Doedd dim.

3. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, gan nodi bod y cyfan wedi'u cwblhau neu ar y gweill.

4. Talodd y Gweinidog deyrnged i'r Cynghorydd Mair Stephens a fu farw ar 9 Ionawr. Dywedodd y Gweinidog fod Mair wedi bod yn aelod o'r Cyngor Partneriaeth hwn tan yn ddiweddar. Gwnaeth gyfraniad sylweddol i sawl un o'r sectorau a gynrychiolir. Bu'n Ddirprwy Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn aelod o Gyngor CLlLC, yn gynghorydd cymuned am dros 40 mlynedd a gwasanaethodd fel Cadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru. Roedd Mair hefyd yn ymgyrchydd cadarn dros wirfoddoli a chefnogi'r rhai mewn angen, a bu'n gwasanaethu ar Fwrdd CGGC. Dywedodd y Gweinidog y byddai llawer yn colli Mair, ac adleisiwyd hyn gan bob aelod.

## Eitem 1: Etholiadau Lleol 2022

**Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Y Cynghorydd Jane Mudd, Llefarydd CLlLC dros Gydraddoldeb, Gwrth-dlodi ac Ymfudo**

5. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion diwygio etholiadol, adolygiadau etholiadol, yr arolwg etholiadau lleol (y cyfeirir ato hefyd fel yr arolwg ymgeiswyr), y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yng Nghymru a'r cynlluniau peilot pleidleisio hyblyg sydd ar y gweill.

6. Rhoddodd y Cynghorydd Jane Mudd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith Amrywiaeth mewn Democratiaeth, datganiadau Cyngor Amrywiol, gwefan *Byddwch yn Gynghorydd Cymru,* a'r Adduned Ymgyrchoedd Teg.

7. Cytunwyd bod gwaith sylweddol ar y gweill yng Nghymru i gynyddu cyfranogiad mewn democratiaeth, gan gynnwys bod pob un o'r 22 awdurdod wedi gwneud datganiadau Cyngor Amrywiol. Tynnwyd sylw hefyd at rai heriau sy'n weddill, megis lefelau cyflogau aelodau etholedig, a'r cam-drin a'r aflonyddu annerbyniol y mae llawer o bobl mewn bywyd cyhoeddus, yn anffodus, yn ei wynebu. Mae amryw o adnoddau a chanllawiau ar ymdrin â bygythiadau wedi'u diweddaru a byddant ar gael i gynghorwyr

newydd. Ymgysylltwyd hefyd â'r 4 heddlu, ac maent yn cynnig cyngor a chymorth i gynghorwyr.

8. Yn y sgwrs, rhannwyd yr addewid Ymgyrch Deg, a lofnodwyd gan y 22 arweinydd. Y gobaith yw y bydd yr addewid hwn yn cefnogi ymgeiswyr, yn enwedig y rhai sy'n fwy newydd i fywyd democrataidd a'r rheini o gefndir lleiafrifol a allai fod wedi profi gwahaniaethu.

## Eitem 2: Adfer (eitem sefydlog) – Addasiadau Covid

**Y Cyng Huw David, Llywydd a Llefarydd CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Roedd y prif bwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd David ac aelodau eraill yn cynnwys:

- Ni fydd cyfnod pontio clir o ymateb i adfer. Mae pwysau ehangach yn bodoli sy'n dwysáu adferiad ac addasiadau. Yn arbennig, pwysau'r gaeaf a heriau'r gweithlu.
- Croesawyd y gwaith ar y camau gweithredu gofal a arweiniodd at weithredu a buddsoddi ychwanegol cyflym y gaeaf hwn sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'r pwysau'n parhau, a bydd angen gwaith caled i fynd drwy'r gaeaf.
- Croesawir y setliad llywodraeth leol dros dro gan gynnwys setliad aml-flwyddyn dangosol. Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i awdurdodau ledled Cymru ac mae awdurdodau'n ddiolchgar am y buddsoddiad hwnnw.
- Mae llywodraeth leol yn cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio i raddau helaeth, sydd yn ein barn ni yn cefnogi'r cyfnod pontio o covid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r economi leol.
- Cynigion CLlLC ar gyfer pecyn gwydnwch economaidd drwy'r Cyngor Partneriaeth. Mae caffael sy'n cynnwys cadwyni cyflenwi lleol yn flaenoriaeth ac mae llywodraeth leol yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hynny gan fod cymaint o ansicrwydd yn yr economi o hyd a bod angen adfer ac ailgodi yn dilyn niwed y pandemig.
- Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda chynghorau cymuned a thref, gan fyfyrio ar rôl cynghorau a blaenoriaethu gwasanaethau. Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i wneud pethau'n wahanol. Mae CLlLC yn gweithio gyda CGGC, Un Llais Cymru a phartneriaid eraill. Mae cyfres o weminarau newydd ddod i ben a oedd yn disgrifio profiadau pobl yn ystod y llifogydd a'r pandemig ac yn dangos arfer rhagorol o ran atal llifogydd, cysylltiadau cymunedol a dod â gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol ynghyd.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ymrwymo i gynnal cyfarfod yn y dyfodol yn edrych ar gaffael o ran ei rôl wrth addasu ac adfer, edrych ar wagleoedd yn y gadwyn gyflenwi, ceisio adeiladu dull economi sylfaenol, a gweithio i gadw arian yn lleol. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ddatblygu gallu a galluedd ymhellach ym maes caffael, yn enwedig o ran gwerth cymdeithasol. Mae awdurdodau lleol yn awyddus i sicrhau bod prosesau caffael yn deg ac yn gynaliadwy, ond hefyd yn awyddus i annog busnesau bach i ymgysylltu. Byddai GIG Cymru hefyd yn awyddus i fod yn rhan o'r gwaith hwn.

**CAM GWEITHREDU 1:** Y Gweinidog Llywodraeth Leol a CLlLC i gyfarfod i drafod rôl caffael wrth addasu ac adfer ar ôl covid, defnyddio cadwyni cyflenwi lleol, a materion yn ymwneud â gwerth cymdeithasol.

## Eitem 3: Cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal

**Rhoddodd swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol yr wybodaeth ddiweddaraf**

Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf gan swyddogion, a'r drafodaeth ddilynol, yn cynnwys:

- Fforwm gwaith teg gofal cymdeithasol – dechreuodd yn 2020 mewn partneriaeth gymdeithasol â chydweithwyr yn yr undeb ac eraill fel CLlLC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y cadeirydd annibynnol o gymorth wrth gymell ehangder y gwaith. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaethau Cymdeithasol i'r fforwm edrych ar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i weithredu'r cyflog byw.
- Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr y byddai isafswm o £9.90 yn dechrau o fis Ebrill eleni.
- Rhaglen ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Papur gwyn diweddar yn edrych ar y fframwaith gofal cymdeithasol, a materion yn ymwneud â chomisiynu. Sicrhau cyswllt â phob un o'r darnau hyn o waith i sicrhau bod ymdrech yn cael ei thargedu yn y mannau cywir, ac nad oes unrhyw ddyblygu.
- Gweithio ar ganllawiau ar gyfer darpariaeth awdurdodau lleol a chomisiynau byrddau iechyd lleol, er mwyn bod mor gyson â phosibl wrth weithredu.
- Pwysigrwydd cyfathrebu – ar gyfer partneriaid a phobl sy'n gweithio i rywun sy'n cael taliadau uniongyrchol fel eu bod yn gwybod beth y dylent fod yn ei wneud i weithredu'r cyflog byw.
- Mae fframwaith dilyniant wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud gwaith ar ymgyrch recriwtio a chadw, a llesiant y gweithlu, i helpu pobl i feddwl am yrfa iechyd a gofal cymdeithasol yn ei chyfanrwydd.
- Cytunwyd bod prentisiaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig, gan roi'r dewis i bobl fynd i'r maes gofal cymdeithasol neu ofal iechyd.
- Croesawyd y taliad ychwanegol i weithwyr gofal.

## Eitem 4: Newid yn yr Hinsawdd (eitem sefydlog)

**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, CLlLC**
**Richard Crook, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac Aelod o Banel y Strategaeth Datgarboneiddio**

Roedd y diweddariadau a phrif bwyntiau'r drafodaeth yn cynnwys:

- Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol am drafodaethau gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru ynghylch gwaredu tanwydd ffosil mewn cynlluniau pensiwn llywodraeth leol. Awgrymodd y Gweinidog y dylid gwahodd y Bartneriaeth i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth, neu'r Is-grŵp Cyllid yn y dyfodol i drafod ymhellach. Cytunodd y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLlLC, y byddai'n cefnogi hynny.
- Monitro allyriadau'n flynyddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd data allyriadau gydag awdurdodau lleol, ac mae gweithdai wedi'u trefnu ar gyfer mis Mawrth a mis Ebrill yn barod ar gyfer y camau nesaf.
- Bydd Lyn Cadwallader o Un Llais Cymru yn ymuno â'r Panel, sy'n bwysig wrth i'r gwaith fynd rhagddo gan y bydd y deunyddiau a'r ymchwil yn ddefnyddiol i gynghorau tref a chymuned a fydd yn amhrisiadwy wrth feithrin cysylltiadau â chymunedau lleol.
- Mae arweinwyr yng nghyfarfodydd blaenorol y Cyngor Partneriaeth wedi cymeradwyo cyfres o ymrwymiadau o dan gynllun Sero Net Cymru. Mae cyllid ar gael, ac mae'r gwaith o ystyried a datblygu rhaglenni cenedlaethol yn dechrau. Mae fframwaith o ymgynghorwyr wedi'i sefydlu i gefnogi.
- CLlLC yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar brosesau mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol.
- Mae rhannu arfer da a chyfres o ddosbarthiadau meistr wedi bod yn ddefnyddiol iawn.
- Mae mesur effaith carbon y gwariant caffael yn gofyn am fwy o waith.

**CAM GWEITHREDU 2**: Gwahodd Partneriaeth Pensiwn Cymru i gyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth neu'r Is-grŵp Cyllid yn y dyfodol i drafod gwahardd tanwydd ffosil mewn cynlluniau pensiwn llywodraeth leol.

## Eitem 5: Tai cymdeithasol yng nghyd-destun datgarboneiddio

**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio**

Cyflwynodd y Gweinidog Newid Hinsawdd yr eitem ac estynnodd wahoddiad i Emma Williams roi cyflwyniad ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol a datgarboneiddio.

Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys:

- Ymrwymiadau PfG i sicrhau oddeutu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd - ffigur heriol iawn gyda'r ffocws ar gartrefi carbon isel a chartrefi cymdeithasol i'w rhentu (roedd y tymor diwethaf yn cynnwys cynllun *cymorth i brynu).*
- Cynllun Carbon Sero Net. Canolbwyntio ar ôl-osod cartrefi presennol yn unol â thechnoleg sy'n datblygu.
- Hefyd, mae angen newid ymddygiad, gan helpu pobl i fyw mewn cartrefi mewn ffordd effeithlon. Mae hyn yn bwysicach fyth o ystyried prisiau tanwydd a chostau byw cynyddol.

- Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (WDQR 2021) wir yn codi'r bar. Mae mynediad i fannau awyr agored yn bwysicach nag y bu erioed.
- Mae tai cymdeithasol yn arloesi, ond maent am i'r sector preifat ddilyn eu hesiampl cyn bo hir.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig iawn, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i brosiectau gael eu cyflwyno ar gyfer craffu technegol cyn gynted â phosibl.
- Roedd nifer o aelodau'n cytuno â manteision cydweithio yng Nghymru i ymateb i'r heriau a datblygu'r atebion.

## Eitem 6: Llunio Dyfodol Cymru

**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Stephanie Howarth (Prif Ystadegydd Cymru) ac Andrew Charles (Pennaeth yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy)**

Gosododd y Gweinidog y cefndir, gan atgoffa'r aelodau bod gennym, drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i saith nod llesiant, fframwaith ar gyfer dyfodol Cymru sy'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfiawn. Cymru y byddem am i'n plant ei hetifeddu.

Rhan allweddol o bensaernïaeth y Ddeddf yw'r dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol sy'n ein helpu i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant hyn, ac yn fodd o edrych ar dueddiadau'r dyfodol sy'n debygol o effeithio ar Gymru.

Rhoddodd Andrew a Stephanie yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith, gan atgoffa bod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cyhoeddi set ddiwygiedig o ddangosyddion cenedlaethol a chyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru ym mis Rhagfyr 2021, yn ogystal ag Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol wedi'i ddiweddaru. Diolchwyd am gyfraniad cyrff cyhoeddus eraill tuag at y gwaith hwn.

Mae'r set lawn o ddangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol yma:
https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-2021

Bydd ail don o gerrig milltir a dangosyddion yn cael ei chyd-ddatblygu gyda chyrff cyhoeddus dros y misoedd nesaf, ac yna cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn yr haf.

Rhannwyd adroddiad tueddiadau'r dyfodol Cymru 2021 gydag aelodau. Caiff hwn ei ddrafftio bob 5 mlynedd cyn etholiad y Senedd. Mae ein gallu i lunio dyfodol Cymru gyda’n gilydd yn gysylltiedig â'n gallu i ymateb i dueddiadau allanol pwysig, sy'n debygol o lywio dyfodol Cymru. https://llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021

Yn ystod 2022 mae darn o waith yn cael ei wneud i helpu i ddeall effaith hirdymor y pandemig Covid-19 ar y saith nod llesiant.

Cadarnhaodd Alun Michael ei fod yn falch o weld y dangosydd *hyder yn y system gyfiawnder* fel un o'r pedwar newydd. Cafodd hyn ei groesawu yn sgil y datblygiadau arwyddocaol ym maes Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'r Grŵp Llywio a ddaeth i fodloaeth o ganlyniad i'r gwaith cydweithredol yn ystod y pandemig COVID-19.

## Eitem 7: Adolygiad o weithgarwch a chyflawniadau Cyngor Partneriaeth Cymru o fis Ionawr 2019 i fis Rhagfyr 2021

**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Cyflwynodd y Gweinidog y ffaith bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi'r angen am Gynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol, sy'n sail i'r Cyngor Partneriaeth ac yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn bwriadu cydweithio, i gynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar sut y mae cynigion yn y cynllun wedi'u rhoi ar waith.

Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn CLlLC wedi drafftio adroddiad ar y cyd a rannwyd gydag aelodau cyn y cyfarfod er mwyn iddynt ei ystyried. Nod yr adroddiad oedd casglu naratif o'r hyn a gwmpaswyd ac a gyflawnwyd drwy waith y Cyngor Partneriaeth ar y cyd.

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o'r hyn a geir yn yr adroddiad sy'n cwmpasu cyfnod yn cynnwys Brexit a phandemig Covid-19 – dwy her enfawr yr oedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi'u hwynebu gyda'i gilydd.

Gwahoddwyd pob aelod i ddarllen a chyfrannu at yr adroddiad, neu i'w ddiwygio, gan roi sylwadau i swyddogion erbyn 4 Mawrth.

Ar ôl ei gwblhau, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**CAM GWEITHREDU 3:** Pob aelod i ystyried *Adroddiad Drafft Cyngor Partneriaeth Cymru: mis Ionawr 2019 i fis Rhagfyr 2021* ac i roi unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau i'r ysgrifenyddiaeth erbyn 4 Mawrth 2022.

## Sylwadau i gloi

**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniad i'r trafodaethau, a dywedodd wrth yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Gorffennaf *[ers hynny, mae wedi newid i 6 Gorffennaf].*

Dymunodd y Gweinidog y gorau i unrhyw aelodau na fyddant yn aros yn eu swyddi yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol, a diolchodd am yr agwedd gydweithredol a chefnogol a ddangoswyd yn y cyfarfodydd.

**CAMAU GWEITHREDU**

**CAM GWEITHREDU 1:** Y Gweinidog Llywodraeth Leol a CLlLC i gyfarfod i drafod rôl caffael wrth addasu ac adfer ar ôl covid, defnyddio cadwyni cyflenwi lleol, a materion yn ymwneud â gwerth cymdeithasol.

**CAM GWEITHREDU 2**: Gwahodd Partneriaeth Pensiwn Cymru i gyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth neu'r Is-grŵp Cyllid yn y dyfodol i drafod gwahardd tanwydd ffosil mewn cynlluniau pensiwn llywodraeth leol.

**CAM GWEITHREDU 3:** Pob aelod i ystyried *Adroddiad Drafft Cyngor Partneriaeth Cymru: mis Ionawr 2019 i fis Rhagfyr 2021* ac i roi unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau i'r ysgrifenyddiaeth erbyn 4 Mawrth 2022.